

**OMBWDSMON
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS CYMRU**

**CYFRIFON BLYNYDDOL
AR GYFER Y FLWYDDYN
A DDAETH I BEN
31 MAWRTH 2008**

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

CYFRIFON BLYNYDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2008

Adroddiad yr Ombwdsmon

HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Dyma ail Gyfrifon Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Daeth y swydd i fodolaeth yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2006 yn dilyn rhoi Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ar waith. O ganlyniad i ddiwygiadau i'r Ddeddf yn tarddu o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyflog a chostau cyflogaeth cysylltiedig yr ombwdsmon yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Ar ben hynny mae'n rhaid cyflwyno costau rhedeg y Swyddfa i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried erbyn 1 Tachwedd fan bellaf bob blwyddyn. Erbyn 22 Tachwedd mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried a gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yr amcangyfrif, gydag unrhyw addasiadau y mae'r Pwyllgor, ar ôl ymgynghori ac ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gennyf i, yn ei ystyried yn briodol. Mae'r broses hon yn debyg i'r un sy'n berthnasol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru a'i bwriad yw sicrhau annibyniaeth fy rôl.

Penodwyd Adam Peat yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Ei Mawrhydi y Frenhines ar argymhelliad Ysgrifennydd Gwladol Cymru a dechreuodd yn y swydd ar 12 Hydref 2005 am gyfnod penodedig o saith mlynedd. Yn dilyn ymddeoliad Mr Peat ar 20 Ebrill 2008, fe'm penodwyd yn ail Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am gyfnod penodedig o saith mlynedd o 21 Ebrill 2008.

Yn unol â pharagraff 18 Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 mae gennyf gyfrifoldeb personol dros drefniadaeth, rheolaeth a staffio cyffredinol y Swyddfa ac am ei gweithdrefnau yng nghyswllt materion ariannol a materion eraill.

CYFARWYDDYD CYFRIFON

Yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi dyddiedig 21 Rhagfyr 2006 mae gofyn i mi baratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu yr argraffiad o Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a oedd mewn grym ar gyfer 2007–08.

Paratowyd y cyfrifon hyn er mwyn:

- (a) rhoi darlun teg a chywir o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2008, ac o'r alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny;
- a
- (b) datgelu gwybodaeth am unrhyw wariant neu incwm o bwys na chafodd ei ddefnyddio i'r dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu drafodion o bwys nad yw wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

ARCHWILWYR

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol cyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y nodwyd ym mharagraff 7 Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Yn dilyn ymgynghoriad â'r Swyddfa hon, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi Grant Thornton UK LLP i wneud y gwaith ar eu rhan er mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n dal i fod â'r cyfrifoldeb cyffredinol. Cost yr archwiliad ar gyfer 2007-08 oedd £14.9k. Mae hyn yn cymharu â £14.5k ar gyfer 2006-07.

Hyd y gwn i, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn i fod wedi'u cymryd i dynnu sylw'r archwilwyr at unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gennyf gytundeb lefel gwasanaeth ar wahân gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer darparu cyngor sy'n ymwneud ag adnoddau dynol. Talwyd £5k (2006-07 £10k) i Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r cytundeb hwnnw.

NODAU AC AMCANION

Diben Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol ac yn ddiduedd i gwynion gan y cyhoedd am y ffordd y cawsant eu trin gan gorff cyhoeddus. Rwyf yn disgwyl i gyrrff cyhoeddus drin pobl yn deg, yn ystyriol ac yn effeithlon. Os byddaf yn cymeradwyo cwyn, byddaf yn argymhell modd priodol o wneud

iawn. Mae gennyf hefyd rôl bwysig i ymchwilio i gwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Fy nod yw cynnig gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru trwy:

- (a) ymchwilio i gwynion mor drwyadl ag sy'n angenrheidiol ac mor gyflym ag y bo modd
- (b) codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaeth yr Ombwdsmon a sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd i ddarpar ddefnyddwyr
- (c) defnyddio gwersi a ddysgwyd yn sgil fy ymchwiliadau i hyrwyddo arferion da a threfn lywodraethu da gan gyrrff cyhoeddus
- (d) sefydlu trefn lywodraethu da a rheolaeth effeithiol yn fy swyddfa.

PRIF WEITHGAREDDAU

Dyma brif weithgareddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y mae'r cyfrifon hyn yn rhoi sylw iddynt:

- (a) ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd yn erbyn awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) yng Nghymru;
- (b) ymchwilio i honiadau yn erbyn aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys cynghorau tref a chymuned) eu bod wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod ar gyfer aelodau;
- (c) ymchwilio i gwynion gan y cyhoedd yn erbyn cyrff GIG, ymarferwyr gwasanaeth iechyd teulu a darparwyr annibynnol Gwasanaethau GIG yng Nghymru;
- (d) ymchwilio i gwynion yn erbyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; a
- (e) ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

ADRODDIAD RHEOLI

Dyma flwyddyn gyntaf y newidiadau yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Y prif wahaniaeth yw'r cyllido trwy Gronfa Gyfunol Cymru a bod unrhyw arian sy'n weddill nad yw wedi ei wario yn gorfod cael ei ad-dalu i'r Gronfa bedair wythnos fan bellaf ar ôl i gopi ardystiedig o'r cyfrifon gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hyn yn creu mwy o reolaeth gan fod angen mynd ati'n effeithiol i reoli'r gyllideb ar sail arian ac adnoddau. Mae fy nghyflog a chostau cysylltiedig yn gost uniongyrchol i'r gronfa gyfunol a weinyddir trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Costau staffio o £1.7 miliwn yw'r eitem fwyaf o wariant o hyd.

Mae'r galw am wasanaethau'r Swyddfa yn parhau i dyfu ar gyfradd o oddeutu 10% y flwyddyn. Mae'n galonogol gweld bod y gyfradd dwf hon wedi cael ei chynnal dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sylweddol uwch yn chwarter cyntaf y flwyddyn 2008-09.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru newydd, hoffwn gydnabod gwaith fy rhagflaenydd Adam Peat wrth iddo gyflawni hyn a gobeithio y bydd hyn yn parhau dan fy adain i yn y swydd gan ei fod yn pwysleisio pa mor bwysig yw fy rôl i wella safonau gwasanaeth. Mae llwyddiannau'r flwyddyn a fu i'w gweld yn fanylach yn yr adroddiad blynyddol statudol ar gyfer 2007-08. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.ombudsman-wales.org.uk.

Rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru £2.6 miliwn i gyllido'r Swyddfa. Mae hyn yn llai na'r flwyddyn flaenorol oherwydd rhoddwyd arian yn 2006-07 i wneud iawn am y diffyg yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac ar gyfer cyflog a chostau gysylltiedig yr Ombwdsmon sydd nawr yn cael eu cwrdd yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru.

CYDNABYDDIAETH

Gwelir manylion tâl a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth.

RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN

Cyflawnir rhwymedigaethau pensiwn i weithwyr o'r gorffennol a'r presennol trwy:

- (a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;
- (b) Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir trwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a
- (c) Y pensiynau a dalwyd yn uniongyrchol i gyn Gomisiynwyr neu eu dibynyddion.

Mae manylion llawnach i'w gweld yn Nodyn 3 y Cyfrifon hyn.

POLISI CYFLOGAETH

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn recriwtio ar yr egwyddor o ddethol ar sail teilyngdod trwy gystadleuaeth deg ac agored ac mae'n ymroddedig i sicrhau cyfle cyfartal i bob aelod o staff. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd wedi ymrwmo i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, yn ogystal â diwallu gofynion statudol eraill.

TALU CYFLENWYR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymrwmo i gydymffurfio â Rheoliadau Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr 2002. Y polisi talu yw talu anfonebau yn unol ag amodau contractau y cytunwyd arnynt neu, os na cheir amodau o'r fath, cyn pen 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau a'r gwasanaethau neu o dderbyn anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Yn ystod 2007-08 talwyd 96% o anfonebau yn unol â'r polisi hwn (o'i gymharu â 97% yn 2006-07).

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Yn swydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rwyf yn gorfforaeth unigol. Yn ogystal â hynny, fe'm penodwyd gan y Trysorlys yn Swyddog Cyfrifyddu'r cronfeydd cyhoeddus ac yn y cyswllt hwn y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynof i gyflawni fy swyddogaethau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio'n dal i gael ei gadeirio'n effeithiol gan Laurie Pavelin CBE FCA ac mae'n parhau i ddarparu cefnogaeth sylweddol o'i brofiad helaeth o reolaeth ariannol a chyfrifyddu yn y sector cyhoeddus. Aelodau eraill y pwyllgor yw Elizabeth Thomas yn ei swydd fel Cynghorydd Cyfreithiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghyd â minnau fel y Swyddog Cyfrifyddu. Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2008 adolygodd y Pwyllgor ei gylch gorchwyl o'u cymharu â'r rhai a nodwyd yn Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007 gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Diwygiwyd y cylch gorchwyl i unioni yn fwy agos â'r rhai a nodwyd yn y ddogfen honno. Ar ben hynny, mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiad o'i weithgareddau er

mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r lefel briodol o wasanaethau i'm cefnogi yn fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn derbyn ac yn adolygu'r Gofrestr Risg ym mhob cyfarfod ynghyd â manylion unrhyw risgiau posibl. Mae'n galonogol bod lefel y risg sy'n wynebu'r corff yn ymaros yn isel. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau am unrhyw faterion priodol a ddaw dan gochl ei gylch gorchwyl.

Yn ystod y flwyddyn mae'r pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd gan archwilywyr allanol a mewnol. Mae gwaith Bentley Jennison fel Archwilywyr Mewnol yn cael ei wneud ar sail asesiad anghenion cyffredinol a ategir gan raglen flynyddol. Mae'r rhain wedi tynnu sylw at y gwaith boddhaol a wneir gan y corff. Ystyriodd y pwyllgor Gyfrifon Blynyddol y sefydliad ar gyfer 2006-07 ynghyd â'r adroddiad Archwilio a'r llythyr Rheoli gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Bu'r Pwyllgor yn adolygu'r newidiadau yn nhrefniadau ariannol y Swyddfa yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Hefyd ystyriwyd materion yn codi ynghylch staff a arferai gael eu cyflogi gan y Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru yn dal i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol a'u hawl i drosglwyddo i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil pe dymument hynny.

Mae gwaith y Pwyllgor Archwilio'n dal i roi sicrwydd a alluogodd Adam Peat i gydymffurfio â gofynion swydd y Swyddog Cyfrifyddu ac edrychaf ymlaen at dderbyn cefnogaeth debyg.

RHOI GWYBOD AM ACHOSION SY'N YMWNEUD Â DATA PERSONOL

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi canllawiau ar roi gwybod ynghylch unrhyw achos o golli data personol a warchodwyd, datgelu hynny heb awdurdod ac unrhyw achos o gael gwared ar ddata personol a warchodwyd mewn modd anniogel. Y ddyletswydd yw adrodd ynghylch y canlynol:

- Manylion unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol yr adroddwyd yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol;
- Achosion wedi'u cofnodi sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd nas adroddwyd yn ffurfiol yn eu cylch wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol; ac
- Unrhyw achosion sy'n ymwneud â data personol a warchodwyd yn y blynyddoedd ariannol blaenorol.

Gallaf adrodd nad wyf yn ymwybodol o unrhyw achosion y mae angen i mi adrodd yn eu cylch yn ystod y flwyddyn dan sylw nac yn ystod blwyddyn ariannol 2006-07. Mae polisi diogelu data diwygiedig yn cael ei gwblhau ar gyfer y corff.

Y DYFODOL

Fel yr Ombwdsmon newydd ei benodi, edrychaf ymlaen at adeiladu ar lwyddiant fy rhagflaenydd wrth iddo sefydlu'r gwasanaeth a'i lywio'n effeithiol drwy ei ddyddiau cynnar. Byddaf yn edrych i sicrhau bod gwasanaeth cwynion annibynnol, effeithiol a thrylwyr ar gael i bobl yng Nghymru and bod y gwersi i'w dysgu oddi wrth gwynion yn cyfrannu at welliant parhaus gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

DIGWYDDIADAU AR ÔL CAU'R FANTOLEN

Nid oes newidiadau i adrodd yn eu cylch.

Peter Tyndall

Swyddog Cyfrifyddu

22 Medi 2008

ADRODDIAD AR GYDNABYDDIAETH

Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caf fy nhalu gan Cronfa Gyfunol Cymru, ynghyd â'r costau cysylltiedig sy'n ymwneud ag yswiriant gwladol a chostau fy mhensiwn. Dyma'r flwyddyn gyntaf i adrodd ar y trefniant hwn gan mai ar 1 Ebrill 2007 y daeth y newid i rym. Diben y newid yw sicrhau annibyniaeth fy rôl fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac mae'n debyg i'r trefniadau sy'n berthnasol i Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Telir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar lefel gyfwerth â Grŵp 5 y Strwythur Cyflog Barnwrol. Wrth i mi ymgymryd â'r swydd ar 21 Ebrill 2008 ni chefais fy nhalu yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008. Yn ystod 2007-08 derbyniodd fy rhagflaenydd, Adam Peat a ymddeolodd ar 21 Ebrill 2008, dâl o £132k (2006-07 £128k) a'r cyfraniadau yswiriant gwladol gan y cyflogwr oedd £15k (2006-07 £11k) . Yn ogystal, swm cyfraniadau pensiwn gan gyflogwr at Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil oedd £29k (2006-07 £25k).

Ni chafodd Mr Peat fuddion ymarferol yn ystod y flwyddyn 2007-08 (2006-07 Dim). Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn Nodyn 4 dan Costau Gweinyddol Eraill Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol.

* Dyma fanylion hawliau pensiwn Mr Peat ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| * Gwir gynnydd mewn pensiwn | Gwir gynnydd mewn cyfandaliad | Pensiwn ar 31 Mawrth 2008 | Cyfandaliad ar 31 Mawrth 2008 | Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian ar 01 Ebrill 2007 | CETV 31 Mawrth 2008 | Cyfraniadau gweithiwr a throsglwyddiadau i mewn | Gwir gynnydd mewn CETV a gyllidir gan y cyflogwr |
|--------------------------------|-------------------------------|---------------------------|-------------------------------|--|---------------------|---|--|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 2 | 5 | 61 | 184 | 536 | 674 | 2 | 18 |

Mae ffigurau'r pensiwn a roddir yn y tabl uchod yn dangos yr hawliadau llawn. Darperir gwybodaeth ategol yn y Nodiadau isod.

Nodiadau

Trefniadau pensiwn

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir y budd-daliadau pensiwn hyn dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu o'r cynllun i wŷr neu wraig. Taliad yw Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (CETV) a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i bensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau pensiwn ychwanegol a gronnwyd lle prynodd y gweithiwr flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'i boced ei hun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gynigir gan Sefydliad a Chyfadrannau yr Actwariaid.

Y cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn sydd wedi cronni o ganlyniad i chwyddiant, y cyfraniadau sydd wedi eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

* Yn ystod y flwyddyn, talwyd cyfanswm o £2,400 i Mr Pavelin fel cadeirydd annibynnol y Pwyllgor Archwilio, yn seiliedig ar gyfradd ddyddiol (2006-07 £1,600).

* Eitemau yn amodol ar archwiliad

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifyddu

22 Medi 2008

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros briodoldeb a rheoleiddra cyllid cyhoeddus yr wyf i, fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn atebol drosto; am gadw cyfrifon cywir; am weinyddiaeth ddarbodus a doeth; am osgoi gwastraff ac afradlonedd; ac am ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael yn effeithiol ac yn effeithlon.

Yn benodol, rhaid i mi

1. lofnodi'r cyfrifon gofynnol dan Baragraff 16 Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac, wrth wneud hynny, dderbyn cyfrifoldeb personol dros eu cyflwyno yn y modd cywir fel a nodir mewn deddfwriaeth neu gan y Trysorlys;
2. sicrhau bod gweithdrefnau ariannol cywir yn cael eu dilyn, a bod y cofnodion cyfrifo'n cael eu cadw ar ffurf sy'n briodol i ofynion rheolaeth yn ogystal ag ar ffurf a bennir ar gyfer cyfrifon cyhoeddedig;
3. sicrhau bod yr arian cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdano yn cael ei reoli'n dda ac yn gywir ac yn cael ei ddiogelu, gydag unrhyw falansau arian sydd yn nwylo swyddog yn cael eu gwirio'n annibynnol ac yn effeithiol;
4. sicrhau bod yr asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli a'u diogelu gyda gofal tebyg, ac yn cael eu gwirio fel y bo'n briodol;
5. wrth ystyried argymhellion sy'n ymwneud â'r gwariant neu'r incwm yr wyf yn gyfrifol amdano, sicrhau bod yr holl ystyriaethau ariannol perthnasol yn cael eu hystyried ac y rhoddir ystyriaeth lawn i unrhyw faterion priodoldeb neu reoleiddra; a
6. llofnodi'r datganiad ar reolaeth fewnol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â'r *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol* ar gyfer 2007-08 a baratowyd gan y Trysorlys, ac yn enwedig:

- (a) glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyflwynwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- (b) gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- (c) dynodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, a dadlennu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- (d) pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni pwrpas Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ddiffinnir mewn statud ac yn ei nodau ac amcanion strategol, gan hefyd ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd imi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Yr wyf yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn atebol i'w Bwyllgor Archwilio o ran defnyddio adnoddau y sicrheir eu bod ar gael i gefnogi fy swyddogaethau statudol. Cyn fy mhenodi ar 21 Ebrill 2008, ymgwymerwyd â swydd Swyddog Cyfrifyddu gan fy rhagflaenydd, Adam Peat.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei dyfeisio i reoli risg i raddau rhesymol ac nid i ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyfeisiwyd i ganfod a blaenoriaethu unrhyw risg i gyflawni fy mholisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u heffaith pe bai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod mewn grym o ran Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Y gallu i ddelio â risg

Yr wyf yn parhau i weithredu trefniadau rheoli mewnol cadarn er mwyn sicrhau bod gan y Swyddfa y gallu i ganfod, asesu a rheoli risg yn effeithiol.

Y Tîm Reoli a gadeirir gennyf sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio rheoli risg. Rwyf yn fodlon bod y systemau sydd ar waith yn canfod y risgiau posib yn fuan ac yn caniatáu, trwy reolaeth weithredol, i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw effaith andwyol ar y Swyddfa. Yn ychwanegol at

hyn mae'r Pwyllgor Archwilio yn dal i adolygu'n rheolaidd debygolrwydd o risg i'r corff. Yn y gwaith hwn, yr wyf wedi parhau i elwa o brofiad sylweddol y cadeirydd, Mr Laurie Pavelin CBE FCA, mewn rheoli ariannol yn y sector cyhoeddus.

Y fframwaith risg a rheolaeth

Er mwyn sicrhau bod prosesau priodol ar waith rwyf wedi derbyn cymorth sylweddol gan y Pwyllgor Archwilio a chan Bentley Jennison fel yr Archwilwyr Mewnol. Mae sgôp eu gwaith yn sicrhau bod y prosesau a'r gweithdrefnau priodol ar waith. Yn arbennig, mae angen monitro risgiau i enw da a hygrededd y Swyddfa. Caiff risg bwysig arall ei monitro gan adolygiad rheolaidd ar Lywodraethu Corfforaethol o fewn y Strategaeth Archwilio Mewnol.

Un o'r risgiau corfforaethol pwysig sydd wedi dod i'r amlwg eleni yw Diogelwch Gwybodaeth. Mae'r Swyddfa hon wastad wedi cynnal lefel uchel o ddiogelwch oherwydd y rhwymedigaethau a geir yn adran 26 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ynghylch peidio â datgelu gwybodaeth ac eithrio'r hyn a nodir yn benodol. Mae'r polisi ar ddiogelwch gwybodaeth wrthi'n cael ei gwblhau a dilynir hyn gan adolygiad Archwiliad Mewnol.

Dyma fesurau'r fframwaith risg a rheolaeth sydd ar waith:

- (a) proses cynllunio busnes i werthuso perfformiad, cynlluniau a thargedau'r gorffennol ac i gyflwyno cynlluniau a thargedau ar gyfer y dyfodol fel a nodwyd yn y cynllun busnes ar gyfer 2007-08 a blynyddoedd dilynol sydd, yn dilyn adolygiad, wedi'i ymgorffori yn y ddogfen newydd ar gyfer 2008-09 ac wedi hynny. Mae hyn yn sicrhau yr adolygir nodau ac amcanion y Swyddfa yn rheolaidd.
- (b) cynnal proses o asesu risg a fydd yn golygu mapio meysydd risg allweddol wrth iddynt effeithio ar gyflawni ein hamcanion busnes. Mae hyn yn helpu'r broses o wneud penderfyniadau a bydd yn helpu i ddylanwadu ar y rhaglen archwilio mewnol; a
- (c) datblygu cynllun parhad busnes a fydd yn cael ei adolygu a'i brofi o bryd i'w gilydd i baratoi proses adfer gam wrth gam o ddigwyddiadau a fyddai'n amharu ar ein gallu i weithredu.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Dylanwadir ar fy adolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r Pwyllgor Archwilio. Fe'm cynorthwyr hefyd gan lythyr rheoli'r archwilwyr allanol ac unrhyw adroddiadau eraill a gyflwynir ganddynt. Mae cynllun ar waith i roi sylw i wendidau a sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus. Caiff y cynllun ei fonitro trwy'r Pwyllgor Archwilio wrth iddynt dderbyn adroddiad yn rheolaidd sy'n nodi'r camau a gymerwyd ar faterion a godwyd gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Problemau Sylweddol o ran Rheolaeth Fewnol

Gallaf adrodd nad oedd gwendidau sylweddol yn system rheolaeth fewnol y Swyddfa yn 2007-08 a effeithiodd ar allu'r swyddfa i gyflawni ei pholisïau, ei nodau a'i hamcanion.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifyddu

22 Medi 2008

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 dan baragraff 17(2) Atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb Adnoddau Alldro, y Datganiad Costau Gweithredu a'r Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad costau gweithredu a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, a'r datganiadau ariannol yn unol â pharagraff 17(2) atodlen 1 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru parthed hynny, ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u hamlinellu yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar daliadau sydd i'w archwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Rhoddaf i chi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a archwilir wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a chyfarwyddiadau parthed honno gan Weinidogion Cymru. Adroddaf i chi ynghylch a yw'r wybodaeth sy'n cynnwys adroddiad yr Ombwdsmon, y sylwadau ar reolaeth a'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth, a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol yn fy marn i. Adroddaf i chi hefyd ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob mater o bwys, wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, adroddaf i chi os nad yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad, neu os nad yw gwybodaeth sy'n ofynnol gan Drysorlys Ei Mawrhydi ynghylch taliadau a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu.

Yr wyf yn adolygu i weld a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM, a byddaf yn adrodd os nad ydyw. Nid oes rhaid i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cynnwys pob risg a phroses reoli, na llunio barn am effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Darllenaf yr wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Yr wyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn yr archwilydd

Yr wyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys edrych yn fanwl, ar sail prawf, ar dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r penderfyniadau a wnaed gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn fwyaf priodol i amgylchiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a ddefnyddir hwy yn gyson ac a ddatgelir hwy yn ddigonol.

Bu i mi gynllunio a chynnal f'archwiliad er mwyn i mi dderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a archwilir yn cynnwys unrhyw gamddatganiad, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad neu dwyll, a bod y gwariant a'r incwm ym mhob modd o bwys wedi cael eu defnyddio at y dibenion y bwriadwyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso a yw'r wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a archwilir, yn gyffredinol, wedi'u cyflwyno'n ddigonol.

Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â hi gan Weinidogion Cymru, o sefyllfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31ain Mawrth 2008, ac o'r Gofyniad arian parod net, ei enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a archwilir wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed parthed honno; ac
- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys adroddiad yr Ombwdsmon, sylwadau ar reolaeth a'r adroddiad ar Gydabyddiaeth, a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol Gydabyddiaeth.

Y Farn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob modd materol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w cynnig am y datganiadau ariannol hyn.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Datganiadau Ariannol 2007-08

CRYNODEB O'R FFIGURAU ADNODDAU ALLDRO

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008

| 2007-08 | | Alldro | | | | | 2006-07 |
|--|-------|-----------------|--------------------|-------|-----------------|--|---|
| Amcangyfrif | | | | | | | |
| f | | | | | | | |
| Diwygiedig | | | | | | | |
| Gwariant Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gwariant t Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/ (gormodedd) a amcangyfrifwyd | Ffigurau alldro y flwyddyn flaenorol |
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| <i>Costau Gweinyddol</i> | | | 2774 | (6) | 2768 | | 2496 |
| <i>Llai Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir</i> | | | 176 | | 176 | | - |
| <i>Cyfanswm Adnoddau</i> | 2817 | (132) | 2685 | 2598 | (6) | 2592 | 93 |
| <i>Gofynion Arian Parod Net Nodyn 2</i> | | | 2597 | | 2597 | 0 | 4450 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD YNGHYLCH Y COSTAU GWEITHREDU

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | 2007-08 | 2006-07 |
|---|-------|-------------|-------------|
| | | £000 | £000 |
| Costau gweinyddol: | | | |
| Costau staff | 3 | 1718 | 1643 |
| Costau gweinyddol eraill heb fod yn rhai staff | 4 | 1056 | 861 |
| Costau Gweinyddol Gros | | 2774 | 2504 |
| Incwm Gweithredu | 5 | (6) | (8) |
| Costau Gweinyddol Net | | 2768 | 2496 |
| COSTAU GWEITHREDU NET a FFIGURAU ADNODDAU ALLDRO NET | | 2768 | 2496 |

Mae'r holl weithgareddau a ddechreuwyd o fewn y cyfnod yn parhau.

Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

| | Nodyn | 2007 | 2008 |
|---|-------|-------------|--------------|
| Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth | | | |
| | | £000 | £000 |
| Elw / (colled) Actiwaraidd ar Gynllun Pensiwn | 3 | <u>(10)</u> | <u>(650)</u> |
| Cyfanswm enillion (colledion) cydnabyddedig yn y flwyddyn | | <u>(10)</u> | <u>(650)</u> |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

MANTOLEN

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | 2007-08 | 2006-07 |
|---|-------|-------------------|--------------|
| | | £000 | £000 |
| Asedau sefydlog | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 6 | 241 | 246 |
| Asedau sefydlog anweladwy | 7 | 65 | 64 |
| | | <u>306</u> | <u>310</u> |
| Dyledus gan ddyledwyr ar ôl mwy na blwyddyn | | | |
| | 8 | - | 42 |
| | | <u> </u> | <u>42</u> |
| Asedau Cyfredol | | | |
| Dyledus gan ddyledwyr o fewn blwyddyn | 8 | 131 | 230 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 14 | 14 |
| | | <u>145</u> | <u>244</u> |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Dyledus i greydwyr o fewn blwyddyn | 10 | (82) | (68) |
| Asedau cyfredol net | | <u>63</u> | <u>176</u> |
| Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Dyledus i greydwyr ar ôl blwyddyn | 10 | (45) | (53) |
| Darpariaethau | 11 | (614) | (606) |
| | | <u>(659)</u> | <u>(659)</u> |
| | | (290) | (131) |
| Gwarged (Diffyg) y Gronfa Bensiwn | | | |
| | 3 | 290 | 160 |
| | | <u>0</u> | <u>29</u> |
| Ecwiti Trethdalwr | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 15 | <u>(0)</u> | <u>(29)</u> |

Peter Tyndall

Swyddog Cyfrifyddu

22 Medi 2008

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD LLIF ARIAN

ar gyfer y flwyddyn a daeth i ben ar 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | 2007-08 | 2006-07 |
|--|--------------|----------------|----------------|
| | | £000 | £000 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | 16 | (2521) | (4409) |
| Buddsoddiad ariannol a gwariant cyfalaf | 17 | (76) | (41) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 18 | 2597 | 4106 |
| (Gostyngiad) mewn Arian | 18 | 0 | (344) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

ADNODDAU YN ÔL NODAU AC AMCANION

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008

Amlinellir costau darparu gwasanaeth Ombwdsmon o'r radd flaenaf i Gymru isod.

Dyrannwyd i bob amcan fel a ganlyn:

- (b) Amcangyfrif o'r amser staff a dreuliwyd ar yr amcan
- (c) Dyraniad gwariant uniongyrchol
- (d) Dosrannu costau eraill pro rata i'r amcangyfrif amser staff

Gan nad oes newid adnabyddadwy wedi bod i waith y Swyddfa, a bod y nodau wedi bod yn gyson dros y ddwy flynedd, defnyddiwyd yr un sail dosrannu i ddarparu ffigurau cymaradwy ar gyfer 2005-06. Yr oedd yr adrodd yn 2005-06 yn seiliedig ar y gwahanol awdurdodaethau, ond gyda'r newidiadau i'r Swyddfa, nid yw hyn yn briodol mwyach.

| | 2007-08 | | | 2006-07 | | |
|--|--------------|---------------|-------------|--------------|---------------|-------------|
| | Gros £000 | Incwm £000 | Net £000 | Gros £000 | Incwm £000 | Net £000 |
| Ymchwilio i gwynion mor drwyadl ag sy'n angenrheidiol ac mor gyflym ag sy'n bosibl | 2113 | | 2113 | 1847 | | 1847 |
| Codi ymwybyddiaeth o wasanaeth yr Ombwdsmon a sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd i ddarparu ddefnyddwyr | 219 | | 219 | 171 | | 171 |
| Defnyddio gwersi a ddysgwyd yn sgil fy ymchwiliadau i hybu ymarfer da a threfn lywodraethu dda gan gyrff cyhoeddus | 290 | | 290 | 352 | | 352 |
| Sicrhau trefn lywodraethu dda a rheolaeth effeithiol o fewn fy swyddfa | 152 | (6) | 146 | 134 | (8) | 126 |
| Costau gweithredu net | 2774 | (6) | 2768 | 2504 | (8) | 2496 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 36 yn rhan o'r cyfrifon hyn

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008

1. **Datganiad ynghylch y Polisiâu Cyfrifyddu**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth, a gyhoeddir gan Drysorlys EM, ac sydd mewn grym ar gyfer 2007-08. Mae'r polisiâu cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn yr arferion cyfrifyddu sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol yn y DU ar gyfer cwmnïau (UK GAAP), cyn belled ag y maent yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y cyfrifon, i bwrpas rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisiâu cyfrifyddu arbennig sydd wedi eu mabwysiadu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru isod. Fe'u defnyddiwyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

1.1 **Confensiwn Cyfrifyddu**

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, gan ei addasu i ystyried unrhyw achos lle cafodd gwerth yr asedau sefydlog eu hailbrisio yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 **Asedau Sefydlog Diriaethol**

Mae gwariant wedi'i gyfalafu lle disgwylir i'r asedau a brynwyd fod ag oes ddefnyddiol dros nifer o flynyddoedd a lle mae ei gost yn fwy na £1k. Dangosir asedau sefydlog diriaethol ar eu cost llai lwfans am ddibrisiad. Gall asedau sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a'u bod yn rhan o gynllun mwy sydd â chyfanswm dros £1k. Ar sail adnabyddiaeth gychwynnol, mesurir asedau sefydlog ar sail eu cost gan gynnwys costau megis costau gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn rhai a ddefnyddiwyd i'w gweithredu ar gyfer y defnydd y bwriadwyd hwynt. Wrth adolygu costau'r asedau sefydlog a gaffaelwyd yn flaenorol a'r prisiau a dalwyd am yr eitemau newydd a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn, nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net hanesyddol yr asedau a'u cost adnewyddu llai dibrisiad.

1.3 **Dibrisiant**

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu dibrisio yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i roi eu gwerth gweddilliol tybiedig ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig. Caiff asedau yn ystod y gwaith adeiladu eu dibrisio o'r pwynt y defnyddir yr ased gyntaf. Ac eithrio lle nodir hynny'n wahanol, tybir bod eu hoes fel a ganlyn:

| | |
|-------------------------|--|
| Y dodrefn a'r ffitiadau | 10 mlynedd |
| Costau ffitio | 10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai |
| Cyfarpar TG | 3 i 5 mlynedd |
| Cyfarpar cyfathrebu | 10 mlynedd |

1.4 **Asedau anniriaethol**

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a brynwyd yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol lle achosir gwariant o £1k neu fwy. Gall asedau anniriaethol sy'n costio llai na £1k gael eu cyfalafu ar yr amod eu bod yn rhai cyfalaf a bod cyfanswm eu gwerth dros £1k. Ac eithrio lle na ellir cadarnhau tystiolaeth ddibynadwy o'u gwerth cyfredol, caiff y rhain eu hail-ddatgan yn ôl eu gwerth cyfredol bob blwyddyn. Caiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio dros y tymor byrrach yn y drwydded a'u hoes economaidd ddefnyddiol. Yn dilyn adolygiad o ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer cwynion yn y dyfodol, ystyrir bellach mai saith mlynedd yw oes ddefnyddiol y meddalwedd. Yn unol â UK GAPP, ni wnaed newidiadau ôl-weithredol ar gyfer y blynyddoedd blaenorol.

1.5 **Tâl Cyfalaf**

Mae credyd, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn cael ei gynnwys yn y costau gweithredu. Cyfrifir y tâl hwn yn ôl y gyfradd wirioneddol a bennir gan Drysorlys EM (3.5% ar hyn o bryd) ar sail swm cario cyfartalog yr holl asedau, llai rhwymedigaethau ar wahân i falansau arian parod.

1.6 **Treth ar Werth**

Nid yw Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'i chofrestru ar gyfer TAW.

1.7 **Pensiynau**

Mae'r ymrwymadau pensiwn i staff blaenorol a phresennol yn dod dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, sy'n bennaf yn un anghyfrannol a heb ei ariannu; dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir drwy Gynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa); a thrwy daliadau uniongyrchol i'r tri Chomisiynydd blaenorol dros Weinyddu Lleol yng Nghymru. Datgelir y manylion llawn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon. Caiff costau darparu'r pensiynau hyn eu codi drwy'r Datganiad Costau Gweithredu.

1.8 **Costau gadael yn gynnar**

Lle mae'n ofynnol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dalu costau buddion ychwanegol sy'n fwy na'r buddion arferol a delir dan y cynllun pensiwn priodol i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar, caiff y costau hyn eu cynnwys yn llawn ar y datganiad costau gweithredu pan fydd y rhwymedigaeth benodol yn codi.

1.9 **Prydlesi Gweithredol**

Caiff gwariant dan y prydlesi gweithredu ei gynnwys ar y Datganiad Costau Gweithredu o fewn y cyfnod y mae'r gwariant yn digwydd.

1.10 **Costau Staff a Chostau Gweinyddol Eraill**

Mae'r holl gostau cyflog a chostau cysylltiedig ar gyfer staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu talu'n llawn o'r cyfrifon hyn.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i ddyrannu costau wedi eu dyfeisio i roi'r adlewyrchiad mwyaf cywir o gostau rhedeg swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru. Mae'r sail dosrannu'n amcangyfrif o'r amser a dreulir ar amcanion y Swyddfa gan y staff, ac eithrio gwariant y gellir ei dalu'n uniongyrchol.

1.11 ***Incwm Gweithredu***

Cyfrifir ar gyfer grantiau gan y Llywodraeth a llog banc yn y flwyddyn y'u ceir. Credydur incwm arall i'r flwyddyn gyfrifo y gwneir y gwaith ynddi.

1.12 ***Cyfnewid Arian Tramor***

Mae trafodion busnes mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion hyn.

1.13 ***Offerynnau Ariannol***

Dan FRS 13, Derivatives and Other Financial Instruments, rhaid datgelu swyddogaeth offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod dan sylw o ran creu neu newid y risgiau. Datgelir y rhain fel y bo'n briodol.

2. CYSONI ADNODDAU Â'R GOFYNION ARIAN PAROD NET

| | Nodyn | Amcangyfrif diwygiedig 2007-08 £000 | 2007-08 ffigurau alldro £000 | Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r arbediad/(gormodedd) a amcangyfrifwyd £000 | 2006-07 ffigurau alldro £000 |
|--|-------|--|---------------------------------------|---|---------------------------------------|
| Cyfanswm y Ffigurau Adnoddau Net Terfynol Alldro Datganiad Costau Gweithredu | | 2685 | 2768 | (83) | 2496 |
| Llai Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir | | 0 | 176 | 176 | 0 |
| Net | | 2685 | 2592 | 93 | 2496 |
| Caffael asedau sefydlog | 6/7 | 20 | 76 | (56) | 41 |
| Addasiadau croniadau: | | | | | |
| Eitemau heb fod yn rhai ariannol | 3 / 4 | (95) | (128) | 33 | (29) |
| Newidiadau cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | 16 | (13) | (133) | 120 | 143 |
| Defnyddio darpariaethau | 11 | 0 | 80 | (80) | 89 |
| Cyllido pensiynau | 3 | 0 | 110 | (110) | 1710 |
| Gofyniad net o ran arian Crynodeb o'r Alldro o ran Adnoddau | | 2597 | 2597 | 0 | 4450 |

Ni welwyd gwahaniaeth rhwng yr Amcangyfrif o ran Gofyniad Arian Parod Net a'r Alldro. Yn ystod y flwyddyn, gweithredwyd cynllun i gael offer cyfrifiadurol newydd a thalwyd £75k tuag at y diffyg tymor hir yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol fel y rhagwelwyd gan yr Actwari.

3. **Niferoedd a Chostau Staff**

Yr oedd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd ar sail gyfwerth ag amser cyflawn (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2007-08 | 2006-07 |
|--|----------------|----------------|
| | Nifer | Nifer |
| Uwch reolwyr | 3 | 3 |
| Ymchwilio i gwynion | 31 | 31 |
| Staff Gwasanaethau Corfforaethol / Gweithredol | 6 | 5 |
| Cyfanswm | 40 | 39 |

Dyma'r costau cyflogi cyfunol:

| | 2007-08 | 2006-07 |
|---|----------------|----------------|
| | £000 | £000 |
| Staff parhaol | | |
| Cyflogau | 1323 | 1350 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 101 | 115 |
| Costau pensiwn eraill | 230 | 209 |
| | 1654 | 1674 |
| Staff dros dro | | |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 18 | 25 |
| | 1 | 1 |
| | 19 | 26 |
| | 1673 | 1700 |
| Eitemau heb fod yn rhai ariannol | | |
| (Gostyngiadau)/ychwanegiadau i ddarpariaethau ar gyfer pensiynau'r cyn-ombwdsmon a chostau ymdeol yn gynnar | 85 | (117) |
| Costau cyllid pensiwn net eraill | (40) | 60 |
| Is-gyfanswm | 45 | (57) |
| Cyfanswm costau cyflogaeth | 1718 | 1643 |

Mae costau staff dros dro yn cynnwys staff ar secondiad, pobl ar contractau dros dro a staff asiantaeth.

Pensiynau

Mae dau gynllun pensiwn yn cael eu gweithredu ar ran y staff presennol. Mae rhwymedigaeth barhaus i dalu pensiynau cyn-ombwdsmyrn o hyd.

(a) Prif Gynllun Pensiwn y Llywodraeth

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun buddion diffiniedig nas cyllidir ar gyfer sawl cyflogwr, ond ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n sail iddo. Cynhaliwyd prisiad o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007 gan Actiwari'r cynllun. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk). Ar gyfer 2007-08, talwyd £233k o gyfraniadau'r cyflogwyr i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2006-07 £192k) ar un o bedair cyfradd rhwng 17.1% a 25.5% o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl gwerthuso'r cynllun yn llawn. O 2008-09 ymlaen, adolygir y bandiau cyflog, ond bydd y cyfraddau'n aros yr un fath. (Bydd y cyfraddau'n newid ym mis Ebrill 2009). Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod i dalu costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2007-08 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bobl sydd eisoes yn bensiynwyr.

Caiff gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sy'n bensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Gan nad oedd dim dewisiadau wedi'u gwneud, nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy nac wedi'u talu ymlaen llaw i ddarparwyr pensiwn y bartneriaeth ar ddyddiad y fantolen.

(b) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) sydd wedi'u cyllido, sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan yn y Gronfa sy'n darparu buddion diffiniedig, sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol aelodau.

Yn unol â Safon Adrodd Ariannol Rhif 17 – Buddion Ymddeol (FRS 17), mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant sy'n berthynol i gynlluniau pensiwn.

Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009

Amcangyfrifir y bydd cyfraniadau rheolaidd gan gyflogwr i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 yn £0.036M.

Tybiaethau

Cafwyd prisiad actiwaraid diweddaraf y Gronfa ar 31 Mawrth 2007. Fodd bynnag, cynhaliwyd y prisiad diweddaraf ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2008. Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwysedig annibynnol i ddiweddarau prisiad diweddaraf y Gronfa at ddibenion FRS17:

Prif dybiaethau ariannol

| | 31 Mawrth 2008 (% y flwyddyn) | 31 Mawrth 2007 (% y flwyddyn) | 1 Ebrill 2006 (% y flwyddyn) |
|---|-------------------------------------|----------------------------------|---------------------------------|
| Chwyddiant | 3.7 | 3.2 | 2.5 |
| Cyfradd cynnydd tymor hir cyffredinol mewn cyflogau | 5.2 | 4.7 | 4.0 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau a delir | 3.7 | 3.2 | 2.5 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau gohiriedig | 3.7 | 3.2 | 2.5 |
| Cyfradd disgownt | 6.8 | 5.3 | 5.4 |

Tybiaethau marwoldeb

Seilir y tybiaethau marwoldeb ar y tablau marwoldeb safonol cyfres PNA00 gyda lwfans ar gyfer gwelliannau o ran marwoldeb yn y dyfodol yn unol â'r model amcanestyniadau "carfan canol", yn amodol ar y lefel isaf o welliant blynyddol o 1% y flwyddyn ar gyfer dynion a 0.5% y flwyddyn ar gyfer menywod. Caiff y cyfraddau marwoldeb yn y tabl sylfaenol eu haddasu'n bellach drwy ddefnyddio ffactorau graddio i adlewyrchu profiad marwoldeb gwirioneddol y Gronfa. Er mwyn gallu cymharu â chyflogwyr eraill, tybir bod pensiynwr sy'n 65 oed ar hyn o bryd yn byw ar gyfartaledd am 20.3 mlynedd arall ar ôl ymddeol os ydynt yn ddynion ac am 24.1 mlynedd arall ar ôl ymddeol os ydynt yn fenywod.

Mae'r Actwari, Hewitts Associates Cyf, wedi amcangyfrif mai £902.0M oedd gwerth bid Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ar 31 Mawrth 2008 (dim ond cyfran o'r asedau hyn a gaiff eu dyrannu i'r Cyflogwr). Mae gwerth bid yr asedau ar 31 Mawrth 2008 a 1 Ebrill 2006 wedi'u hamcangyfrif drwy ddefnyddio gwerth canol yr asedau ar 31 Mawrth 2007 a 1 Ebrill 2006 ac ar yr un taenlenni bid-canol ar 31 Mawrth 2008. Isod, amlinellir gwerth yr asedau, ar gyfer y Gronfa gyfan, a ddefnyddiwyd ar y dyddiad cyfrifyddu.

| | Cyfraddau adennill disgwyliedig tymor hir ar 31 Mawrth 2008 (% y flwyddyn) | Amcangyfrif gwerth ar 31 Mawrth 2008 (£M) | Cyfraddau adennill disgwyliedig tymor hir ar 31 Mawrth 2007 | Amcangyfrif gwerth ar 31 Mawrth 2007 (£M) | Cyfraddau adennill disgwyliedig tymor hir ar 1 Ebrill 2006 (% y flwyddyn) | Amcangyfrif gwerth ar 1 Ebrill 2006 (£M) |
|--------------------------|---|--|--|--|---|---|
| Ecwitïau | 7.6 | 640.7 | 7.7 | 690.4 | 7.3 | 622.8 |
| Eiddo | 6.6 | 50.2 | 6.7 | 59.7 | 6.3 | 34.9 |
| Bondiau'r Llywodraeth | 4.6 | 44.7 | 4.7 | 31.5 | 4.3 | 35.0 |
| Bondiau Corfforaethol | 6.8 | 121.7 | 5.3 | 97.4 | 4.9 | 94.1 |
| Arall | 6.0 | 44.7 | 5.6 | 19.5 | 4.6 | 12.4 |

| | | | | | | |
|----------|-----|-------|-----|-------|-----|-------|
| Cyfanswm | 7.2 | 902.0 | 7.2 | 898.4 | 6.8 | 799.2 |
|----------|-----|-------|-----|-------|-----|-------|

Cysoni'r statws noddedig â mantolen

| | Gwerth ar 31 Mawrth 2008 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2007 (£M) | Gwerth ar 1 Ebrill 2006 (£M) |
|---|-------------------------------------|----------------------------------|---------------------------------|
| Gwerth teg asedau'r Gronfa | 4.41 | 4.54 | 2.77 |
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau | 4.12 | 4.39 | 3.62 |
| Asedau pensiwn net / (rhwymedigaeth) | 0.29 | 0.15 | (0.85) |

Mae'r tabl uchod yn dangos y ffigurau a gyfrifwyd yn unol â'r Diwygiadau i FRS 17. Mae angen £10k yn ychwanegol yn y flwyddyn bresennol er mwyn cyfrif am y newidiadau oherwydd yr ailgyfrifiad.

Dadansoddiad o gostau elw a cholled

| | Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2008 (£M) | Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2007 (£M) |
|-----------------------------------|---|---|
| Cost y gwasanaeth cyfredol | 0.03 | 0.05 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.02 | 0.00 |
| Costau llog | 0.23 | 0.19 |
| Incwm disgwylidig ar asedau | (0.32) | (0.18) |
| Cost terfynu | 0.00 | 0.00 |
| Cost setliad | 0.00 | 0.00 |
| Costau a welir mewn elw a cholled | (0.04) | 0.06 |

Newidiadau i werth cyfredol rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn

| | Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2008 (£M) | Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2007 (£M) |
|---|--|---|
| Gwerth cyfredol agoriadol y rhwymedigaethau | 4.39 | 3.62 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | 0.03 | 0.05 |
| Costau llog | 0.23 | 0.19 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr (Enillion)/colledion actwaraidd ar rhwymedigaethau* | (0.43) | 0.70 |
| Buddion net a dalwyd | (0.13)# | (0.19) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.02 | 0.00 |
| Cynnydd net yn y rhwymedigaethau o safbwynt caffael a gwaredu | 0.00 | 0.00 |
| Terfyniadau | 0.00 | 0.00 |
| Setliadau | 0.00 | 0.00 |
| Gwerth cyfredol terfynol rhwymedigaethau | 4.12 | 4.39 |

* Yn cynnwys newidiadau i'r tybiaethau actwaraidd

#Yn cynnwys llif arian net o'r Gronfa yng nghyswllt y cyflogwr, heb gynnwys cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau a dalwyd yn sgil marwolaeth mewn gwaith, ac yn cynnwys lwfans priodol ar gyfer cost ddisgwyliedig cyfandaliadau o £0.001M a delir yn sgil marwolaeth mewn gwaith.

Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

| | Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2008 (£M) | Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2007 (£M) |
|---|--|--|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 4.54 | 2.77 |
| Incwm disgwyliedig ar asedau | 0.32 | 0.18 |
| Enillion/(colledion) actwaraidd ar asedau | (0.44) | 0.05 |
| Cyfraniadau gan y Cyflogwr | 0.11 | 1.71 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.01 | 0.02 |
| Buddion net a dalwyd | (0.13) | (0.19) |
| Cynnydd net yn yr asedau o safbwynt caffael a gwaredu | 0.00 | 0.00 |
| Setliadau | 0.00 | 0.00 |
| Gwerth teg terfynol yr asedau | 4.41 | 4.54 |

(c) Pensiynau i gyn-Ombwdsmyr

Gyda chytundeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym 1991, a chadarnhad dilynol gan Offeryn Statudol 1993 Rhif 1367, daeth Comisiynwyr Llywodraeth Leol yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae pensiynau'r tri Chomisiynydd Llywodraeth Leol blaenorol yn parhau'n gyfrifoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn cael eu talu drwy'r datganiad costau gweithredu.

Mae'r pensiynau yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Gorchymyn Cynyddu Pensiynau. Yr oedd cyfanswm y taliadau a wnaed yn ystod 2007-08 yn £69k (£66k yn 2006-07). Mae'r rhwymedigaethau sy'n codi o'r ymrwymiad i gyllido'r pensiynau hyn, ynghyd ag unrhyw bensiynau dibynyddion, wedi eu cyfrifo i fod yn £611k (2006-07 £597k). Daw'r prif wahaniaeth o ganlyniad i'r penderfyniad i ddilyn cyfarwyddyd y Trysorlys y dylid rhoi disgownt ar bob rhwymedigaeth Pensiwn. Cyfradd y disgownt a ddefnyddiwyd oedd 3.5% (2006-07 5.3%), sef y gyfradd a ddefnyddiwyd ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol y cyfeirir ato uchod. Cyflawnwyd y cyfrifiad i bennu'r rhwymedigaeth gyffredinol yn fewnol drwy ddefnyddio tablau disgwyliadau oes ar gyfer dynion a menywod yng Nghymru oddi ar wefan Adran Actwari'r Llywodraeth. Dangosir manylion pellach dan symudiadau mewn darpariaethau (Nodyn 11).

4. **Costau Gweinyddol heb fod yn rhai staff**

| | 2007-08 £000 | 2006-07 £000 |
|--|-----------------|-----------------|
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu | 160 | 238 |
| Ffi Archwilwyr Allanol | 15 | 15 |
| Gwasanaethau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwneud ag adnoddau dynol | 5 | 10 |
| Gwasanaeth Ymgynghorol Proffesiynol | 199 | 124 |
| Costau eiddo eraill | 87 | 88 |
| Gwasanaethau cyfrifiadurol | 62 | 51 |
| Nwyddau, cyfarpar a gwasanaethau swyddfa | 241 | 218 |
| Teithio a chynhaliaeth | 28 | 31 |
| Gwasanaethau sefydlog y Gronfa Gyfunol (Cyflog a chostau cysylltiedig yr Ombwdsmon a delir o Gronfa Gyfunol Cymru) | 176 | - |
| Is-gyfanswm | 973 | 775 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 80 | 99 |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog diriaethol | - | 2 |
| Darpariaeth ar gyfer ailaddurno | 3 | |
| Cost credyd cyfalaf | 0 | (15) |
| Is-gyfanswm | 83 | 86 |
| Cyfanswm y Costau Gweinyddol Eraill | 1056 | 861 |

Mae cost y swyddfeydd, a nodir fel rhenti dan brydlesi gweithredu, yn cynnwys taliadau gwasanaeth sy'n rhan annatod o'r brydles a chost trethi'r adeiladau. Ond nid yw'r symiau a ddatgelir yn Nodyn 12 – Ymrwymadau o dan Brydlesau – yng nghyswllt tir ac adeiladau ond yn cynnwys costau contractau rhenti a gwasanaeth tymor hir.

Mae'r cynnydd mewn ffioedd proffesiynol o ganlyniad i'r angen cynyddol am gyngor arbenigol.

5. **Incwm Gweithredu**

Daw'r incwm sydd i ddod i law o fuddsoddi cyllid dros ben yn y tymor byr

| | 2007-08 £000 | 2006-07 £000 |
|------------------------|-----------------|-----------------|
| Llog sydd i ddod i law | 6 | 7 |
| Incwm arall | - | 1 |

6. Asedau Sefydlog Diriaethol

| | Gwaith ffitio | Cyfarpar TG | Dodref n a ffitiada u eraill | Cyfarpar ffôn | Cyfansw m |
|--------------------------------------|------------------|-------------|---------------------------------------|------------------|--------------|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2007 | 196 | 81 | 101 | 22 | 400 |
| Ailddosbarthiad | | | | | |
| Ychwanegiadau | 6 | 26 | 11 | 7 | 50 |
| Gwaredu | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 202 | 107 | 112 | 29 | 450 |
| Dibrisiant Ar 1 Ebrill 2007 | 56 | 62 | 29 | 7 | 154 |
| Cofnodwyd yn y flwyddyn | 21 | 19 | 12 | 3 | 55 |
| Gwaredu | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 77 | 81 | 41 | 10 | 209 |
| NBV ar 31 Mawrth 2008 | 125 | 26 | 71 | 19 | 241 |
| NBV ar 31 Mawrth 2007 | 140 | 19 | 72 | 15 | 246 |

7. Asedau Sefydlog Anniriaethol

Mae'r Swyddfa'n parhau i ddefnyddio system gyfrifiadurol i fonitro cynwion, a pherchennog y system yn y pen draw yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban. Talodd y swyddfa hon ffi drwyddedu er mwyn cael defnyddio'r system.

| | 2007-08 | 2006-07 |
|--------------------------------------|------------------|------------------|
| | £000 | £000 |
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill | 175 | 167 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 26 | 8 |
| Cyfanswm | <u>201</u> | <u>175</u> |
| Amorteiddio ar Ebrill 1 | (111) | (72) |
| Amorteiddio yn ystod y flwyddyn | (25) | (39) |
| Cyfanswm | <u>(136)</u> | <u>(111)</u> |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth | <u>65</u> | <u>64</u> |

8. Dyledwyr

| | 2007-08 £000 | 2006-07 £000 |
|---|-----------------|-----------------|
| Symiau sy'n daladwy mewn mwy na blwyddyn | | |
| Blaendaliadau | - | 42 |
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Gan adrannau o'r Llywodraeth | - | 124 |
| Gan bartïon eraill | - | 1 |
| Blaendaliadau | 131 | 105 |
| | 131 | 230 |

9. Arian yn y banc ac mewn llaw

Rhaid dychwelyd unrhyw arian a gedwir yn y cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae credydwr £14k wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, fel balans net diwedd blwyddyn y cyfrifon banc a weithredir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ni waeth a yw'r cyfrif unigol mewn dyled neu gredyd, a swm y grant a dderbyniwyd ac a wrthbwyswyd gan yr ad-daliad hwn. Mae hyn yn codi o'r newid yn y trefniadau ariannu ar ôl sefydlu Cronfa Gyfunol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

10. Credydwyr

| | 2007-08 £000 | 2006-07 £000 |
|---|-----------------|-----------------|
| Symiau sy'n daladwy mewn blwyddyn | | |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Casglwr Trethi | - | - |
| Symiau sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Seneddol | 20 | 1 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 14 | 14 |
| Credydwyr masnach | 48 | 53 |
| | 82 | 68 |
| Symiau sy'n daladwy mewn mwy na blwyddyn | | |
| Gostyngiad gohiriedig ar rent | 45 | 53 |
| Cyfanswm | 127 | 121 |

11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | 2007-08 | | | 2006-07 | |
|--|---------------------------|-------------------------------------|--|------------------|------------------|
| | Ymddeol yn gynnar £000 | Pensiynau i Gyn-Gomisiynwyr £000 | Costau Ailaddurno yn y Dyfodol £000 | Cyfanswm £000 | Cyfanswm £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 9 | 597 | 0 | 606 | 812 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 2 | 83 | 3 | 88 | 106 |
| Darpariaethau nad oes eu hangen mwyach | | | | | (223) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (11) | (69) | | (80) | (89) |
| Balans ar 31 Mawrth | 0 | 611 | 3 | 614 | 606 |

Nid oes angen y ddarpariaeth ymddeol yn gynnar mwyach gan fod y pensiwn wedi dod yn daladwy wrth gyrraedd oed ymddeol cyffredin.

Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth yn codi o'r cynnydd uwch nag a ddisgwyliid mewn pensiynau ac wrth ailasesu disgwyliad oes yn flynyddol drwy ddefnyddio'r tablau. Adolygwyd y ffactor gostyngiad a defnyddiwyd cyfradd newydd o 3.5% o'i gymharu â 5.3% ar gyfer 2006-07. Mae hyn wedi arwain at gynyddu darpariaeth.

Mae costau ailaddurno yn y dyfodol yn codi o rwymedigaeth i ailaddurno tu fewn i'r adeiladau a brydlesir ym Mharc Bocam.

12. Ymrwymïadau o dan Brydlesi Gweithredol

| | 2007-08 | | 2006-07 | |
|--|-------------------|---------------|-------------------|---------------|
| | Adeiladau £000 | Arall £000 | Adeiladau £000 | Arall £000 |
| Ar 31 Mawrth 2008, yr oedd y Swyddfa wedi ymrwymo i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf yng nghyswllt prydlesi gweithredol a fyddai'n dod i ben: | | | | |
| O fewn blwyddyn | - | - | - | 5 |
| Rhwyng dwy a phum mlynedd | - | 6 | - | - |
| Ar ôl pum mlynedd | 202 | - | 171 | - |
| | 202 | 6 | 171 | 5 |

13. Rhwymedigaethau wrth gefn

Nid oes dim rhwymedigaethau wrth gefn.

14. Ymrwymadau Cyfalaf

Roedd £2k (2006-07 dim) o ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2008 hynny yw cadw 10% ar gontract ar gyfer datblygu mewnwyd.

15. Cronfa Gyffredinol

| | 2007-08 | 2006-07 |
|---|-----------|--------------|
| | £000 | £000 |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 1^{af} Ebrill | 29 | (902) |
| Addasiad i warged cronfa pensiwn yn sgil mabwysiadu'r FRS 17 Diwygiedig | (10) | 0 |
| Cost gweithredu net | (2768) | (2496) |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 2597 | 4106 |
| Yn ddyledus yn ôl i Gronfa Gyfunol Cymru | (14) | (14) |
| Cost Credyd Cyfalaf | 0 | (15) |
| Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir | 176 | - |
| (Diffyg) / gwarged actiwaraidd | (10) | (650) |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 31^{ain} Mawrth | 0 | 29 |

16. Cysoni'r costau gweithredu â'r llifoedd arian gweithredu

| | Nodiadau | 2007-08 | 2006-07 |
|--|----------|---------------|---------------|
| | | £000 | £000 |
| Cost gweithredu net | | (2768) | (2496) |
| Addasu ar gyfer eitemau anariannol | 3,4 | 128 | 29 |
| (Cynnydd) / gostyngiad o ran dyledwyr | 8 | 141 | (6) |
| Cynnydd / (gostyngiad) o ran credydwyr | 10 | 6 | (123) |
| Llai symudiad mewn credydwyr sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio trwy'r OCS | | (14) | (14) |
| Taliad ar gyfer y diffyg yn y gronfa pensiynau | 3 | (110) | (1710) |
| Defnyddio darpariaethau | | (80) | (89) |
| Gwasanaethau Cronfa Gyfunol Cymru a rennir | | 176 | 0 |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredu | | (2521) | (4409) |

17. Gwariant Cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | 2007-08 | 2006-07 |
|---|-------------|-------------|
| | £000 | £000 |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol | (50) | (33) |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol | (26) | (8) |
| All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi | <u>(76)</u> | <u>(41)</u> |

18. Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd/(lleihad) mewn arian parod

| | 2007-08 | 2006-07 |
|---|---------------|---------------|
| | £000 | £000 |
| Gofynion Arian Parod Net | | |
| Gweithgareddau gweithredu | (2521) | (4409) |
| Gwariant cyfalaf | (76) | (41) |
| | <u>(2597)</u> | <u>(4450)</u> |
| Cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 2597 | 4106 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian | <u>0</u> | <u>(344)</u> |

19. Offerynnau ariannol

Oherwydd natur ddifasnach y rhan fwyaf o'i weithgareddau, a'r modd y mae cyrff y llywodraeth yn cael eu hariannu, nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn agored i'r un faint o risg ariannol ag a wynebir gan rai cyrff busnes. Cynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd ac ni thybir eu bod yn newid y risgiau a wynebir gan y Swyddfa wrth gyflawni ei gweithgareddau. Arian parod yw unig offeryn ariannol y Swyddfa.

20. Trafodion Busnes Partion Perthynol

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer o drafodion o bwys gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Bu trafodion o bwys hefyd gyda Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol. Hefyd, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael nifer fach o drafodion gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill y llywodraeth ganolog.